



Cyfryngau'r Genedl: Cymru 2018

Cyhoeddwyd 18 Gorffennaf 2018





Gair am y ddogfen hon

Dyma adroddiad Gwledydd y Cyfryngau: Cymru cyntaf Ofcom. Mae'r adroddiad yn adolygu patrymau allweddol yn y sector teledu a chlyweledol yn ogystal â'r diwydiant radio a sain yng Nghymru. Mae'n rhoi cyd-destun i waith Ofcom yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.

Yn ogystal â'r adroddiad Cymru yma, mae adroddiadau ar wahân ar gyfer y DU drwyddi draw, Gogledd Iwerddon, yr Alban, yn ogystal ag adroddiad data rhyngweithiol.

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o setiau data, gan gynnwys data pwrpasol wedi'i gasglu'n uniongyrchol gan ddarlledwyr teledu a radio trwyddedig (ar gyfer allbwn, gwariant a refeniw), ymchwil defnyddwyr perchnogol Ofcom (ar gyfer barn y gynulleidfa) yn ogystal â BARB/RAJAR (ar gyfer defnydd cynulleidfa), a ffynonellau trydydd parti eraill (ar gyfer patrymau mewn gwasanaethau ar-alwad a ffrydio).

Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwn i gefnogi nod rheoleiddio Ofcom, sef ymchwilio i farchnadoedd yn gyson a sicrhau ein bod ar y blaen o ran deall technoleg. Mae hefyd yn ymdrin â'r gofyniad i gynnal a chyhoeddi ein hymchwil defnyddwyr (fel y nodir yn Adrannau 14 ac 15 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003). Mae'r adroddiad hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r gofynion sydd ar Ofcom o dan Adran 358 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i gyhoeddi adroddiad ystadegol a ffeithiol bob blwyddyn.

Cynnwys

Gair am y ddogfen hon	2
Gwasanaethau a dyfeisiau teledu	7
Gwyllo teledu a chynnwys clyweledol.....	12
Rhaglenni teledu ar gyfer gwylwyr yng Nghymru.....	21
Bodlonrwydd â theledu a chanfyddiadau o deledu	30
Gwrandawyr radio	34



Prif bwyntiau

Yn 2017 treuliodd pobl Cymru 3 awr 43 munud y dydd ar gyfartaledd yn gwyllo teledu wedi'i ddarlledu, a oedd 17 munud yn llai nag yn 2016

- Roedd y gostyngiad hwn o 7.1% mewn gwyllo'r teledu yng Nghymru yn fwy na chyfartaledd y DU sef 4.2%.
- Roedd y gostyngiad yng Nghymru yn rhannol oherwydd cynnydd yn faint o amser a dreulir yn defnyddio'r teledu ar gyfer dibenion heblaw teledu a ddarlledir (fel gwasanaethau ffrydio fel Netflix ac Amazon, neu chwarae gemau). Roedd defnyddio'r teledu ar gyfer y dibenion hyn wedi codi o gyfartaledd o 11 munud y pen bob dydd i 44 munud.
- Gêm Cymru yn erbyn Iwerddon ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad ar BBC One oedd y rhaglen deledu a gafodd ei gwyllo fwyaf yn 2017 gyda chynulleidfa o 806,000 ar gyfartaledd.
- Mewn wythnos arferol yn ystod 2017, roedd 364,000 o wylwyr yng Nghymru wedi gwyllo S4C ar y teledu am o leiaf 3 munud yn olynol. Dyma oedd y lefel cyrhaeddiad uchaf ers 2014 ac roedd cynnydd sylweddol mewn cyrhaeddiad wrth ystyried yr holl wylwyr ar draws y DU, i 562,000 yn 2017, cynnydd o 3.1% ers 2016.

Roedd 8% o gynnydd termau real mewn gwariant ar raglenni ar gyfer gwylwyr yng Nghymru gan y BBC ac ITV yn 2017.

- Gyda'i gilydd, gwariodd y BBC ac ITV £29.1m ar gynnwys gwreiddiol o'r DU a ddangoswyd am y tro cyntaf ar gyfer gwylwyr yng Nghymru. Roedd hyn yn gynnydd termau real o 8.1% ers 2016. Cafodd y cynnydd hwn ei sbarduno gan y BBC, a wariodd 12% yn fwy o un flwyddyn i'r llall, ac roedd gwariant ITV wedi aros yn weddol sefydlog ers 2013.

Mae gan dros hanner cartrefi Cymru (50.4%) wasanaeth teledu lloeren

- Ar 50.4%, roedd gan lawer mwy o gartrefi yng Nghymru wasanaeth teledu lloeren yn Ch1 2018 na chyfartaledd y DU (37.1%). Gwasanaeth lloeren drwy dalu Sky oedd y gwasanaeth teledu drwy dalu mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn Ch1 2018, gyda 41.8% o gartrefi yn defnyddio gwasanaeth o'r fath.
- Roedd gan un cartref o bob deg (10.1%) wasanaeth teledu cebl yng Nghymru erbyn dechrau 2018 – sy'n is na chyfartaledd y DU sef 14.9%, ac sy'n debyg i'r 8.7% yng Ngogledd Iwerddon.

Roedd gan un rhan o dair o gartrefi Cymru (33.3%) deledu daearol digidol (DTT) fel eu hunig lwyfan teledu yn Ch1 2018.

- BBC iPlayer oedd y gwasanaeth ar-alwad mwyaf poblogaidd yn 2018, gyda 37% o oedolion Cymru yn defnyddio'r gwasanaeth, wedi'i ddilyn gan Netflix (25%) ac ITV Hub (24%).

Roedd gan saith o bob deg o wylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fodlon â chynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2017.

- Ar 72% mae hyn yn cymharu â 75% ar gyfer cyfartaledd y DU, 75% yn Lloegr, 71% yn yr Alban a 69% yng Ngogledd Iwerddon.
- Wrth ystyried darpariaeth newyddion gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, roedd cynulleidfaoedd yng Nghymru yn rhoi sgôr uchel i 'Mae'r rhaglenni newyddion yn ddibynadwy' gyda 65%. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd y DU o 69%, Lloegr (68%) a Gogledd Iwerddon (74%). Mae'n is o lawer¹ na'r Alban (79%).
- Roedd llai na hanner cynulleidfaoedd rheolaidd/achlysurol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru (47%) yn rhoi sgôr uchel i 'Mae'n portreadu fy ngwlad/rhanbarth yn deg i weddill y DU'. Er bod y sgôr yma'n debyg i Ogledd Iwerddon (48%), mae'n is o lawer na'r Alban (62%) a Lloegr (56%).
- Cafodd 'Mae'n dangos rhannau gwahanol o'r DU gan gynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon' sgôr uchel gan 56% o gynulleidfaoedd rheolaidd/achlysurol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn debyg i 63% yng Ngogledd Iwerddon ac yn is o lawer na'r Alban (70%) a Lloegr (66%).

Mae gwranddo ar radio digidol yn dal i dyfu yng Nghymru

- Mae faint sy'n gwranddo ar y radio drwy lwyfan digidol wedi bod yn cynyddu, o 28% ar ddechrau 2013 i 47% yn 2018.
- Roedd y nifer sy'n berchen ar setiau radio DAB yng Nghymru wedi disgyn mymryn i 56% yn 2018, er bod y gyfradd hon yn dal i dyfu ar draws gweddill y DU. Wrth gymharu â Chymru, roedd y niferoedd a oedd yn eu defnyddio yn uwch ar draws y DU drwyddi draw (64%) ac yn yr Alban (66%) ar ddechrau 2018 ond roedd yn dal yn is yng Ngogledd Iwerddon ar 50%.
- Wrth ystyried pob radio, roedd tua naw oedolyn o bob deg yn gwranddo ar y radio bob wythnos yng Nghymru yn Ch1 2018 ac ar 22 awr, roedden nhw'n gwranddo am gyfnod hirach bob wythnos nag unrhyw un o wledydd eraill y DU.
- BBC Radio 2 oedd yr orsaf gyda'r nifer mwyaf o wrandawyr bob wythnos yng Nghymru yn chwarter cyntaf 2018.

¹ Drwy gydol y bennod *Bodlonrwydd â theledu a Chanfyddiadau o deledu* mae 'sylweddol' ond wedi cael ei ddefnyddio i dynnu sylw at unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn sgoriau sy'n dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ar y lefel hyder 95% ar gyfer canlyniadau wrth gymharu â'r flwyddyn gyfredol, ac ar y lefel hyder 99% ar gyfer canlyniadau wrth gymharu rhwng blyneddau. I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar adroddiad technegol y Traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar wefan Ofcom:

<https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/data/statistics/stats18>

Prif ganfyddiadau: Cymru



37% o oedolion yn defnyddio BBC iPlayer, y gwasanaeth ar-alw/ffrydio mwyaf poblogaidd yng Nghymru



BBC ac ITV wedi gwario **£29m** ar gynnwys gwreiddiol i Gymru yn 2017, cynnydd o 8% flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn termau real




Ar gyfartaledd treuliodd pobl **3 awr 43 munud** y dydd yn gwyllo'r teledu yn 2017



90% o oedolion yn gwrando ar y radio bob wythnos

Cymru v Iwerddon yng ngornest y Chwe Gwlad oedd y rhaglen deledu â'r nifer uchaf o

wylwyr yn 2017



o wylwyr PSB rheolaidd neu achlysurol yn honni eu bod yn fodlon â darlledu PSB yn 2017



Bu gostyngiad bach mewn perchnogaeth o setiau radio DAB i 56% er gwaetha'r cynnydd parhaus ledled gweddill y DU

All data relates to 2018 in Wales unless stated otherwise



Gwasanaethau a dyfeisiau teledu

Trosolwg o'r bennod

Mae gwasanaethau teledu ar gael mewn amrywiaeth o ffyrdd yng Nghymru. Mae Freeview ar gael drwy deledu daearol digidol a chaiff ei ddarparu drwy erial teledu ac mae Sky a Freesat yn cynnig gwasanaethau lloeren ac mae Virgin Media yn cynnig gwasanaeth teledu cebl. Mae blychau pen-set gan ddarparwyr sy'n cynnwys TalkTalk a BT yn cynnig gwasanaeth Freeview ochr yn ochr â sianeli teledu drwy dalu sy'n cael eu darparu drwy gysylltiad â'r rhyngwrdd. Weithiau mae'r rhain yn cael eu galw yn deledu protocol rhyngwrdd (IPTV).

Mae nifer o wasanaethau ar-alwad a ffrydio hefyd ar gael i ddefnyddwyr dros y rhyngwrdd. Mae'r rhain yn amrywio o wasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel BBC iPlayer, ITV Hub, Clic S4C, All4 a My5 i'r gwasanaethau tanysgrifio sy'n cael eu cynnig gan Netflix ac Amazon.

Roedd gan 97.7% o adeiladau yng Nghymru ddarpariaeth teledu daearol digidol yn 2018²

Mae gwasanaethau teledu daearol digidol yn cael eu darparu yng Nghymru drwy gyfuniad o amblecsau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a masnachol.³ Mae enghreifftiau o wasanaethau ar yr amblecs darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys BBC One, ITV, Channel 4 ac S4C, ac mae'r amblecsau COM yn darparu mynediad at wasanaethau fel Dave, Sky News ac E4.

Ym mis Ionawr 2018, nid oedd gan 2.3% o adeiladau yng Nghymru unrhyw ddarpariaeth teledu daearol digidol o gwbl, ac roedd dros chwarter (26.6%) yn cael darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus ond yn methu cael y sianeli COM drwy eu herial.⁴ O'r herwydd byddai angen i'r cartrefi

²Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr, Ionawr 2018

³ Amblesau ydy'r seilwaith trawsyrru sy'n cael ei ddefnyddio i ddosbarthu gwasanaethau teledu.

⁴ Fel yr uchod


hyn dderbyn teledu drwy loeren, cebl neu dros y rhyngwrwyd, er mwyn gwyllo'r sianeli sy'n cael eu darparu gan yr amblecs masnachol.

Roedd gan gyfran uwch o gartrefi yng Nghymru deledu yn chwarter cyntaf 2018 sef 97% nag ar draws y DU drwyddi draw (95.6%) a'r Alban (94.5%), ac roedd ar yr un lefel â Gogledd Iwerddon.

Roedd gan un rhan o dair o gartrefi Cymru (33.3%) deledu daearol digidol fel eu hunig lwyfan teledu yn Ch1 2018.⁵


Roedd gan hanner cartrefi Cymru wasanaeth teledu lloeren yn 2018

Mae gwasanaethau teledu lloeren yn cael eu darparu gan Sky a Freesat ac yn gwasanaethu tua 98% o adeiladau'r DU,⁶ ac mae lefel eu hargaeledd tua'r un fath ledled Cymru. Gwasanaeth lloeren drwy dalu Sky oedd y gwasanaeth teledu drwy dalu mwyaf poblogaidd ddechrau 2018, gan wasanaethu 41.8% o gartrefi. Roedd gan 8.6% arall wasanaeth lloeren am ddim, gan Freesat mwy na thebyg, a oedd yn golygu ar 50.4%, bod gan lawer mwy o gartrefi yng Nghymru na chyfartaledd y DU (37.1%) wasanaeth teledu lloeren.⁷



Mae'r nifer sy'n defnyddio teledu cebl yng Nghymru yn dal yn is nag yn y DU drwyddi draw

● Argaeledd
● Defnydd



Roedd gwasanaeth cebl Virgin Media ar gael i dros 300,000 o adeiladau yng Nghymru (21.2%) ym mis Ionawr 2018, cynnydd bach ar yr 20.9% o adeiladau lle'r oedd ar gael ym mis Mehefin 2016.⁸

Roedd gan un cartref o bob deg (10.1%) wasanaeth teledu cebl yng Nghymru ar ddechrau 2018 – sy'n is na chyfartaledd ar draws y DU sef 14.9%, ac sy'n debyg i'r 8.7% yng Ngogledd Iwerddon.⁹

⁵ Ffynhonnell: Arolwg Sefydli BARB, Ch1 2018

⁶ Ar sail argaeledd llwybr llinell welediad i'r lloeren. Nid yw'n cynnwys effaith ffactorau fel mynediad mewn unedau sawl annedd lle nad yw'n ymarferol gosod lloeren benodol ar gyfer cartref a lle nad oes system dosbarthu fewnol gyda gwifren ar gyfer lloeren, a'r angen am ganiatâd cynllunio mewn rhai lleoliadau.

⁷ Ffynhonnell: Arolwg Sefydli BARB, Ch1 2018

⁸ Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr, Ionawr 2018

⁹ Ffynhonnell: Arolwg Sefydli BARB, Ch1 2018

Band Eang yng Nghymru


Cyflymder llwytho i lawr o 2Mbit yr eiliad yw'r cyflymder sylfaenol sydd ei angen i ddarparu fideo manylder safonol (SD), ac roedd gan 98.5% o adeiladau yng Nghymru fynediad at wasanaeth o'r fath yn 2018 – cynnydd o 97.1% yn 2016. Roedd y mwyafrif helaeth (98.2%) o adeiladau gyda darpariaeth teledu daearol digidol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ond nad oedden nhw'n gallu derbyn signal o'r amblecs masnachol drwy eu herial, yn cael mynediad i wasanaeth band eang o'r fath ym mis Ionawr 2018.¹⁰

Mae ymchwil Ofcom yn dangos bod gan dri chwarter (75%) o gartrefi Cymru fynediad i'r rhyngwrwyd sefydlog yn 2018, sy'n is na'r DU (80%) drwyddi draw.¹¹ Mae band eang cyflym iawn yn cynnig cyflymder llwytho i lawr sy'n 30Mbit yr eiliad neu fwy, ac roedd 36% o linellau cyflym iawn yng Nghymru yn darparu cyflymder o'r fath yn 2017. Roedd hyn yn is na'r 43% ar draws y DU.¹²

Mae gwasanaethau IPTV yn llai poblogaidd yng Nghymru nag yng ngweddill y DU

Roedd cyfran y cartrefi sydd â theledu protocol rhyngwrwyd (IPTV) yn unig (blwch pen-set BT TV, TalkTalk TV, Plusnet TV, neu flwch YouView annibynnol, a dim lloeren, cebl na gwasanaeth arall), yn ddim ond 5.5% yng Nghymru yn Ch1 2018, yr isaf o blith holl wledydd y DU.¹³

● Argaeledd
● Defnydd




¹⁰Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr, Ionawr 2018

¹¹ Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2018

¹² Cysylltu'r Gwledydd 2017: Cymru ar gael yn https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/108842/wales-connected-nations-2017.pdf.

¹³ Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB, Ch1 2018

Ffigur 1: Defnyddio llwyfannau yng Nghymru, cartrefi (000s): 2012-2017



Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB. Ardaloedd y BBC. Data ar lefel cartrefi, yr holl setiau teledu yn y cartref, felly mae gorgyffwrdd rhwng llwyfannau. Nodiadau: Mae'r pwyntiau data yn seiliedig ar Ch4 bob blwyddyn tan 2018 lle mae'n Ch1. O Ch4 2015 cafodd yr elfen 'defnydd honedig' ei dynnu a arweiniodd at gynnydd yn y boblogaeth 'cartrefi â setiau teledu'. 'Teledu daearol digidol yn unig' = derbyn teledu digidol drwy erial ac nid drwy DSAT/DCAB neu lwyfannau eraill. 'Teledu daearol digidol IPTV hybrid yn unig' = yn derbyn teledu daearol digidol drwy unrhyw un o lwyfannau BT TV/TalkTalk TV/YouView/Plusnet TV a dim DSAT/DCAB/arall.

Mae gwasanaethau ar-alwad a ffrydio yn cynnig cynnwys a dewisiadau ychwanegol i ddefnyddwyr

Roedd un rhan o dair (33%) o oedolion Cymru yn defnyddio gwasanaethau ar-alwad a ffrydio drwy danysgriadiad, fel Netflix ac Amazon, yn 2018. Mae hyn yn debyg iawn i'r un gyfran ag yn Lloegr (34%), yr Alban (33%) a Gogledd Iwerddon (34%).

Fodd bynnag, BBC iPlayer oedd y gwasanaeth ar-alwad mwyaf poblogaidd yn 2018, gyda 37% o oedolion Cymru yn defnyddio'r gwasanaeth, wedi'i ddilyn gan Netflix (25%) ac ITV Hub (24%).¹⁴



¹⁴ Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2018

Mae gan dros hanner cartrefi Cymru deledu sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngwrwyd

Roedd gan dros ddau o bob pump (42%) cartref â theledu yng Nghymru deledu clyfar yn H1 2018 ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi'u cysylltu â gwasanaeth band eang y cartref (79%). Fodd bynnag, pan fyddwn ni'n edrych ar bob math o gysylltedd â'r rhyngwrwyd, gan gynnwys setiau teledu clyfar sydd wedi cysylltu â band eang, roedd dros hanner (52%) y cartrefi sydd â theledu wedi cysylltu eu teledu â'r rhyngwrwyd yn 2018. Mae ffyrdd eraill roedd pobl yng Nghymru yn cysylltu eu teledu â'r rhyngwrwyd yn cynnwys: drwy gonsolau gemau (26%); gliniaduron/cyfrifiaduron bwrdd gwaith (15%), a donglau sydd wedi cysylltu â'r rhyngwrwyd neu flychau pen-set (fel blwch pen-set NOW TV, Roku, Google Chromecast, Amazon Fire TV stick, Amazon Fire TV, Apple TV) (13%).¹⁵

Mae gwyllo teledu wrth grwydro wedi cael ei alluogi gan y cynnydd yn y nifer sydd â ffonau clyfar yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er mai dim ond 78% o ddefnyddwyr ffonau symudol sy'n defnyddio ffôn clyfar yng Nghymru, cyfran is nag yn Lloegr (83%) a Gogledd Iwerddon (85%). Ymysg defnyddwyr ffonau clyfar yng Nghymru, mae gan 83% wasanaeth 4G, sy'n cyd-fynd â'r Alban a Gogledd Iwerddon.¹⁶

¹⁵ Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2018

¹⁶ Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2018



Gwyllo teledu a chynnwys clyweledol


Mae'r adran hon yn defnyddio data sy'n cael ei ddarparu gan Fwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd y Darlledwyr (BARB), panel o 5,100 cartref ledled y DU sy'n darparu'r mesuriadau teledu darlledu swyddogol ar gyfer y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys yr holl wyllo teledu a ddarlledir drwy set deledu, a drwy unrhyw ddyfais sydd ynghlwm wrth y teledu fel cyfrifiadur, gliniadur neu gyfrifiadur llechen. Oni nodir fel arall, mae'r ffigurau a nodir ar gyfer gwyllo wedi'i gyfuno dros saith niwrnod. Mae gwyllo wedi'i gyfuno'n cynnwys gwyllo rhaglenni ar yr adeg maen nhw'n cael eu darlledu ar y teledu (gwyllo byw) yn ogystal ag o recordiadau ar recordwyr fideo digidol (DVRs) a drwy wasanaethau chwaraewyr dal-i-fyny (ee apiau ar setiau teledu clyfar) hyd at saith niwrnod ar ôl y darllediad cyntaf (gwyllo'n ddiweddarach). Edrychwch ar yr atodiad methodoleg i gael rhagor o wybodaeth.

Yn ystod 2017 treuliodd pobl Cymru 3 awr 43 munud y dydd ar gyfartaledd yn gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu

Cymru oedd â'r ail gyfran uchaf ar gyfartaledd o ran gwyllo bob dydd o'r pedair gwlad (cafodd ei phasio gan yr Alban am y tro cyntaf ers 2011). Rhwng 2016 a 2017, roedd gwyllo wedi disgyn 17 munud (7.1%) yng Nghymru – gostyngiad mwy na'r cyfartaledd o 4.2% ar draws y DU. Dim ond yng Ngogledd Iwerddon y gwelwyd cwmp mwy sef 7.9% ers 2016.¹⁷

¹⁷ Ffynhonnell: BARB. Ffynhonnell: BARB. Pob unigolyn (4 oed a hŷn), rhwydwaith. Nodyn: mae'r cyfrifiadau nifer yr oriau yn cael eu gwneud o ddata munudau i chwe phwynt degol, felly efallai na fyddan nhw bob amser yn cyd-fynd â thalgrynnu i funudau cyfan yn y siartiau.


Ffigur 2: Cyfanswm gwylio teledu bob dydd ar gyfartaledd yn ôl gwlad (mewn munudau): 2010-2017



Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+).


Gwylwyr iau sy'n cyfri am y gostyngiad mewn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu

Fel yng ngweddill y DU, mae'r gostyngiad mewn gwylio ymhlith plant ac oedolion ifanc yn gyrru'r gostyngiad cyffredinol mewn gwylio teledu yng Nghymru. Mae gwylio teledu ymysg y rheini sydd dros 55 oed wedi aros yn weddol sefydlog yng Nghymru; ar gyfartaledd, mae'r grŵp hwn yn gwylio 5 awr 58 munud o deledu bob dydd – y ffigur uchaf ar gyfer y grŵp oed hwn yn unrhyw un o



wledydd y DU. Yn y cyfamser, mae'r rheini sydd dan 16 oed yng Nghymru yn gwylio dim ond 1 awr 31 munud o deledu y dydd ar gyfartaledd. Unwaith eto, mae'r ffigur hwn yn uwch nag yn unrhyw wlad arall yn y DU; pum munud yn fwy na chyfartaledd y DU ar gyfer y grŵp yma. Mae gwylio ymysg y rheini sydd dan 34 oed yng Nghymru wedi disgyn 45% ers 2010 – gostyngiad mwy na chyfartaledd y DU o 39.1% ar gyfer y grŵp oed hwn.

Ffigur 3: Munudau dyddiol ar gyfartaledd a dreulir yn gwyllo cyfanswm teledu, yn ôl grŵp oedran yng Nghymru: 2010 - 2017




Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC.

Mae gwyllo teledu nad yw'n cael ei ddarlledu ar setiau teledu yn dal i dyfu

Yn yr un modd â gweddill y DU, er bod pobl yn gwyllo llai o deledu wedi'i ddarlledu, maen nhw'n treulio mwy o amser yn gwyllo pethau eraill ar eu setiau teledu. Mae gwyllo gwasanaethau nad ydyn nhw'n cael eu darlledu ar y teledu (fel gwasanaethau ffrydio, fel Netflix ac Amazon, a chwarae gemau) wedi cynyddu 11 munud yn 2017, i 44 munud y pen, y dydd. Fodd bynnag, nid oedd y cynnydd hwn yn gwrthbwysu'n llawn y gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o'r teledu, a oedd wedi disgyn o 277 munud y dydd yn 2016 i 272 munud yn 2017.

Ffigur 4: Munudau dyddiol ar gyfartaledd y pen o gyfanswm yr amser sgrin teledu yng Nghymru



Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+). * Nodyn: Mae Gwyllo anhysbys yn cyfeirio at pan fydd y teledu yn cael ei ddefnyddio, ond nad oes modd ei gysylltu â sain na'i adnabod mewn unrhyw fodd arall.

Mae'n cynnwys chwarae gemau, gwyllo DVDs/cyfresi/archifau, gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alwad, gwyllo'n ddiweddarach ar ôl 28 diwrnod, apiau ar deledu clyfar a llywio o amgylch dewislenni Cyfeirydd Rhaglenni Electronig lle nad oes cynnwys darlledu yn y llun. Ni chaiff gorsafoedd radio digidol lle mae'r sain yn cael ei gyfateb eu cynnwys.


Y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Ar hyn o bryd mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan y BBC, Channel 4 Corporation (C4C), ITV (sy'n dal y drwydded Sianel 3 yng Nghymru), Channel 5 ac S4C. Er bod holl wasanaethau teledu'r BBC yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianeli'r darlledwyr eraill sydd yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel newyddion a chynrychiadau gwreiddiol, mae'r darlledwyr hyn yn cael manteision penodol: mynediad i sbectrw m (y tonnau radio gwerthfawr sy'n cynnal cyfathrebu di-wifr) er mwyn darlledu eu gwasanaethau; amlygrwydd ar gyfeiryddion rhaglenni electronig ar deledu; ac, yn achos y BBC, ffi'r drwydded.

Mae'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud yn well yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU

Roedd y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am 53.1% cyfun o gyfran cyfanswm cynulleidfa darlledu teledu yng Nghymru 2017. Mae'r gyfran o'r gynulleidfa yn uwch nag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac yn uwch na chyfartaledd y DU sef 50.9%. Ond er bod gan y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus, wrth eu hystyried gyda'i gilydd, gyfran gymharol uchel o'r gynulleidfa yng Nghymru yn 2017, wrth gymharu â gweddill y DU, nid oedd hyn yn wir ar gyfer pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus unigol. Roedd gan Channel 4 gyfran is o'r gynulleidfa yng Nghymru nag yn holl wledydd a rhanbarthau eraill y DU, gyda chyfran o 3.3% o'r gynulleidfa (wrth gymharu â chyfartaledd y DU sef 4.8%). Efallai fod hyn oherwydd bod Channel 4 yn ymddangos yn is ar y cyfeirydd rhaglenni electronig yng Nghymru; S4C sydd yn safle 4/104 felly mae Channel 4 yn ymddangos yn is i lawr ar y rhan fwyaf o lwyfannau teledu yng Nghymru.

Ffigur 5: Cyfran ganrannol o gyfanswm gwylio teledu yng ngwledydd datganoledig y DU, pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus: 2017



Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+).

Cymru v Iwerddon ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad oedd y rhaglen deledu a gafodd ei gwylio fwyaf yn 2017

Y rhaglen a gafodd ei gwylio fwyaf yng Nghymru yn 2017 oedd y gêm rygbi rhwng Cymru ac Iwerddon ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad ym mis Mawrth. At ei gilydd, roedd rygbi yn cyfri am bump o'r deg rhaglen uchaf yng Nghymru yn 2017, ac roedd ei boblogrwydd wedi helpu i sicrhau perfformiad cryf ar gyfer BBC One yng Nghymru: Roedd 15 o'r 20 rhaglen uchaf ar BBC One Wales neu BBC Two Wales. Rhaglen gyntaf cyfres 2017 o *I'm a Celebrity - Get Me out of Here!* oedd y rhaglen a gafodd ei gwylio fwyaf ar ITV Cymru Wales yn 2017, a dyma oedd y drydedd raglen a gafodd ei gwylio fwyaf yng Nghymru.

Ffigur 6: Yr 20 rhaglen a gafodd eu gwyllo fwyaf yng Nghymru, 2017

Safle	Teitl y Rhaglen	Sianel	Dyddiad	Cyfartaledd (miloedd)	% TVR	Cyfran %
1	Rygbi'r Chwe Gwlad: Cymru v Iwerddon	BBC One Wales	10/03/2017	806	27.9	54.7
2	Mrs Brown's Boys Christmas Special	BBC One Wales	01/01/2017	779	27.0	52.5
3	I'm a Celebrity - Get Me Out of Here!	ITV Cymru Wales	19/11/2017	759	26.2	52.6
4	Strictly Come Dancing	BBC One Wales	16/12/2017	746	25.7	58.1
5	Rygbi'r Chwe Gwlad: Cymru v Lloegr	BBC One Wales	11/02/2017	741	25.7	62.4
6	Blue Planet II	BBC One Wales	12/11/2017	700	24.2	47.8
7	Call the Midwife	BBC One Wales	19/02/2017	695	24.1	48.2
8	Rygbi'r Chwe Gwlad: Yr Alban v Cymru	BBC One Wales	25/02/2017	666	23.1	65.2
9	Britain's Got Talent (Cyfres 11)	ITV Cymru Wales	27/05/2017	648	22.4	44.8
10	Rygbi'r Chwe Gwlad: Ffrainc v Cymru	BBC One Wales	18/03/2017	647	22.4	67.8
11	Tân Gwyllt Nos Calan	BBC One Wales	31/12/2017	644	22.2	54.8
12	Strictly Come Dancing: The Results	BBC One Wales	03/12/2017	617	21.3	45.0
13	Sherlock	BBC One Wales	01/01/2017	611	21.2	39.2
14	Rygbi'r Undeb: Cymru v Seland Newydd	BBC Two Wales	25/11/2017	590	20.4	48.9
15	Broadchurch	ITV Cymru Wales	17/04/2017	589	20.4	38.2
16	Strictly Come Dancing Launch Show	BBC One Wales	09/09/2017	587	20.3	48.0
17	Ant & Dec's Saturday Night Takeaway	ITV Cymru Wales	18/03/2017	585	20.3	42.8
18	Death in Paradise	BBC One Wales	05/01/2017	584	20.3	37.1
19	EastEnders	BBC One Wales	25/12/2017	583	20.1	37.5
20	One Love Manchester	BBC One Wales	04/06/2017	582	20.1	49.0

Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+). Mae hyn yn cynnwys yr amrywiadau HD pan fo'n berthnasol, nid yw'n cynnwys yr amrywiadau +1. Y TVR (sgôr teledu) ydy mesur poblogrwydd rhaglen, rhan o ddiwrnod, egwyl fasnachol neu hysbyseb drwy gymharu ei chynulleidfa â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae un TVR yn cyfateb yn rhifol ag un y cant o gynulleidfa darged.

Keeping Faith yn torri record yr iPlayer.


Gofynnwyd am gael gwyllo *Keeping Faith* BBC Cymru Wales dros 9.5 miliwn o weithiau ar BBC iPlayer ar draws y DU, y nifer uchaf erioed ar gyfer rhaglen nad oedd ar y rhwydwaith.¹⁸ Cafodd y gyfres ei ffilmio yn Gymraeg (*Un Bore Mercher*) ac yn Saesneg ar yr un pryd. Roedd y darlledu cyntaf ar S4C yn dangos is-deitlau Saesneg yn llwyr, ac roedd ailddarllediadau'n cynnwys is-deitlau Saesneg wedi'u hamgodio ar gyfer golygfeydd Cymraeg, cyn darlledu'r rhaglen yn Saesneg ar BBC One Wales. Mae BBC Wales wedi cadarnhau mai *Keeping Faith* ydy ei gyfres Gymreig a gafodd ei gwyllo fwyaf ar BBC One Wales mewn dros ugain mlynedd ac mae wedi cadarnhau bod ail gyfres wrthi'n cael ei datblygu.

¹⁸ <http://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2018/keeping-faith>

Roedd bwletinau newyddion BBC One Wales ac ITV Cymru Wales yn gynnwys min nos wedi denu cyfran is yng Nghymru na'r sianeli cyfatebol yn y gwledydd datganoledig eraill

Roedd *Wales Today*, bwletin BBC One Wales yn gynnwys min nos, wedi denu cyfran o 29.2% o wyllo'r slot yng Nghymru, sydd wedi bod yn weddol sefydlog ers 2016 (28.8%) ond yn is na'r rhaglenni newyddion cyfatebol yn gynnwys min nos yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd rhaglen gyfatebol ITV Cymru Wales, *Wales at Six* wedi denu cyfran is sef 20.6%, sydd ychydig yn is na 2016 (22.2%) ac ar yr un lefel â chyfran gyfartalog Sianel 3 yn y DU (20.5%) ar gyfer y slot.¹⁹

Ffigur 7: % Cyfran cynulleidfa newyddion BBC One Wales ac ITV Cymru Wales yn gynnwys min nos: 2017




Ffynhonnell: BARB. Pob unigolyn (dros 4 oed). Nodyn: Ffigurau bwletinau newyddion ('lleol') yn gynnwys min nos ar sail rhaglenni genre 'newyddion rhanbarthol', yn dechrau rhwng 17:55 a 18:35 ac yn para 10 munud neu fwy, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Cyfartaleddau'r DU yn seiliedig ar y gyfran ar gyfer y slotiau amser bwletinau newyddion yn gynnwys min nos (gan ddefnyddio amserlen newyddion Llundain). Caiff bwletin newyddion BBC One yn gynnwys min nos ei ddarlledu rhwng 18:30 a 19:00 ac mae'n seiliedig ar ardaloedd y BBC. Mae bwletin newyddion ITV Cymru Wales yn cael ei ddarlledu rhwng 18:00 a 18:30 ac mae'n seiliedig ar ardaloedd ITV.

¹⁹ Ffynhonnell: BARB. Unigolion (4+). Cyfartaleddau'r DU yn seiliedig ar y gyfran ar gyfer y slotiau amser bwletinau newyddion yn gynnwys min nos (gan ddefnyddio amserlen newyddion Llundain). Mae newyddion BBC One yn seiliedig ar ardal BBC Cymru, mae newyddion ITV yn seiliedig ar ardal ITV Cymru. Mae'r sianeli'n cynnwys yr amrywiadau HD ond nid yr amrywiadau +1.

Roedd gwylio a chyrrhaeddiad S4C wedi codi yn 2017

Mewn wythnos arferol yn ystod 2017, roedd 364,000²⁰ o wylwyr yng Nghymru wedi gwyllo S4C ar y teledu am o leiaf dri munud yn olynol. Dyma oedd y lefel cyrrhaeddiad uchaf ers 2014, ac wrth ystyried yr holl wylwyr ar draws y DU, mae'n cynyddu i 562,000, sydd 3.1% yn uwch na 2016. Pan fyddwn yn cynnwys ffigurau gwyllo ar set deledu rhwng wyth a 28 diwrnod ar ôl darlledu, roedd cyrrhaeddiad S4C yn cynyddu 2% i 373,000 yng Nghymru ac 25% ledled y DU i 700,000 yn 2017.²¹

Ffigur 8: Cyrrhaeddiad wythnosol cyfartalog (000s) S4C, unigolion: 2010-2017



Ffynhonnell: BARB. Unigolion (4+). Cyfanswm ardal S4C a rhwydwaith S4C. Meini prawf cyrrhaeddiad: Dros 3 munud yn olynol, defnyddiwyd wythnosau llawn. Wedi'u cyfuno hyd at 7 niwrnod.


Roedd yr amser a dreuliwyd yn gwyllo S4C wedi cynyddu yng Nghymru yn 2017 i 13 awr 18 munud y pen, y flwyddyn, ar ôl pedair blynedd o ostyngiad. Mae'r rhaniad o ran gwyllo fesul genre ar S4C wedi aros yn weddol gyson o un flwyddyn i'r llall, er bod chwaraeon wedi cynyddu oherwydd rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd. Roedd chwaraeon yn cyfrif am y gyfran fwyaf o wyllo, sef 27%, ac roedd newyddion wedi disgyn i lefelau 2013. Roedd cyfran y gwyllo ymysg plant wedi cynyddu i'w lefel uchaf ers 2014.²²

²⁰ Mae'r ffigurau cyrrhaeddiad yma wedi cael eu talgrynnu i'r 1000 agosaf.

²¹ Ffynhonnell: BARB. Pob unigolyn (4+), cyfanswm ardal S4C a rhwydwaith S4C. Meini prawf cyrrhaeddiad: Dros 3 munud yn olynol, defnyddiwyd wythnosau llawn.

²² Ffynhonnell: BARB. Pob unigolyn (dros 4 oed). Ardal gyfan S4C.

Ffigur 9: Cyfran y gwylwyr ar gyfer S4C yng Nghymru , fesul genre, unigolion



Ffynhonnell: BARB. Pob unigolyn (4 oed a hŷn), cyfanswm ardal S4C. Mae rhaglenni newyddion a thywydd S4C ar gyfer Cymru yn unig ac mae wedi cael ei roi yn y categori newyddion/tywydd cenedlaethol. Pob genre arall = Cerddoriaeth: modern, newyddion: arall, celfyddydau perfformio a gweledol, crefydd, cerddoriaeth: arall, tywydd, cerddoriaeth: clasurol, addysg, darllediadau gwleidyddol, materion cyfoes: arall, dogfennau: gwyddoniaeth a hanes naturiol, materion cyfoes: gwleidyddol/ economaidd/ cymdeithasol, ffilmiau'r DU ac 'arall'/amhenodol BARB



Rhaglenni teledu ar gyfer gwylwyr yng Nghymru

Trosolwg o'r bennod


Mae'r BBC ac ITV yn darparu cynnwys yn benodol i wylwyr yng Nghymru, sydd yn ychwanegol at yr hyn maen nhw'n ei ddangos ar draws y DU. Mae hyn ar draws amrywiaeth o genres ond mae'n canolbwyntio'n benodol ar newyddion a materion cyfoes. Mae S4C yn sianel arbennig ar gyfer rhaglenni Cymraeg ar draws amrywiaeth eang o genres.

Mae'r dadansoddiad isod yn canolbwyntio ar **gynnwys gwreiddiol o'r DU i'w ddarlledu am y tro cyntaf**, sef rhaglenni a gomisiynir gan sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, neu ar ei chyfer, gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU yn y flwyddyn gyfeirio. Mae gwariant ar gynnwys o'r fath yn cynnwys yr holl gostau a wynebwr gan y darlledwr sy'n gysylltiedig â chreu rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys costau cynhyrchu uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer cynrychiadau mewnol a chostau trwyddedu ar gyfer rhaglenni a gomisiynir, ond nid yw'n cynnwys costau sy'n gysylltiedig â marchnata a dosbarthu.

Roedd 8% o gynnydd termau real mewn gwariant ar raglenni ar gyfer gwylwyr yng Nghymru gan y BBC ac ITV yn 2017.

Yn ystod 2017, gyda'i gilydd, gwariodd y BBC ac ITV £29.1m ar gynnwys gwreiddiol o'r DU a ddangoswyd am y tro cyntaf ar gyfer gwylwyr yng Nghymru. Roedd hyn yn gynnydd termau real o 8.1% ers 2016. Roedd hanner y cyfanswm yma ar gynnwys newyddion a materion cyfoes (£14.6m) â'r gweddill (£14.5m) ar genres eraill.

Ffigur 10: Cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre




Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi yn ôl prisiau 2017. Nid yw'n cynnwys gwariant ar allbwn S4C.

Yn 2017, roedd gwariant y BBC ar gyfer gwylwyr yng Nghymru wedi cynyddu 12% mewn termau real

Roedd y BBC wedi cyfrannu £23m at wariant dangos am y tro cyntaf yn 2017, cynnydd o 12% mewn termau real ers 2016, gan ddod â gwariant yn ôl i fyny at lefelau 2015. Roedd ITV Cymru Wales wedi gwario £6.1m ar gynnwys newydd yn y DU yn 2017 ac mae wedi cynnal y lefel hon o fuddsoddiad mewn termau real ers 2013.

Ffigur 11: Gwariant BBC/ITV ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf heb fod ar y rhwydwaith, Cymru (£m)




Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi yn ôl prisiau 2017. Nid yw'n cynnwys gwariant ar allbwn S4C.

Roedd y BBC wedi darlledu 611 awr o gynnwys gwreiddiol o'r DU a gafodd ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru yn 2017.

Mae oriau'r BBC o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer gwylwyr yng Nghymru wedi aros yn weddol sefydlog ers 2012, gan roi cyfanswm o 611 awr yn 2017. Fodd bynnag, 2017 oedd yr ail flwyddyn yn olynol lle cafwyd gostyngiad mewn allbwn newyddion a materion cyfoes gan y BBC; sef 38 awr, roedd hyn wyth awr yn is na 2016.

Mae lefel sefydlog yr oriau, er gwaethaf cynnydd termau real o 12% mewn gwariant, yn adlewyrchu cyfansoddiad genres rhaglenni'r BBC ar gyfer Cymru. Ar gyfartaledd, mae cost yr awr drama yn uwch nag ar gyfer genres eraill, ac roedd y gwariant wedi cynyddu'n sylweddol yn 2017, yn rhannol oherwydd y drydedd gyfres o *Hinterland*, ond mae'r oriau wedi aros yn gyson.

Ffigur 12: Oriau'r BBC o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre



Ffynhonnell: Ofcom/darllledwyr.

Pencadlys newydd BBC Cymru Wales

Roedd BBC Cymru Wales wedi cymryd meddiant o'i bencadlys newydd yn Sgwâr Canolog Caerdydd ym mis Ebrill 2018. Bydd aildatblygu'r safle yn cymryd tua 18 mis, a bydd y staff yn dechrau symud mewn erbyn diwedd 2019. Bydd staff trawsyrru S4C hefyd yn y swyddfa newydd, a fydd yn ganolfan lle gall y sector cynhyrchu annibynnol weithio gyda'r ddau ddarlledwr.²³

Mae oriau gwreiddiol gan ITV Cymru Wales wedi aros yn sefydlog ers 2009


Roedd ITV Cymru Wales wedi darlledu 75 awr o raglenni gwreiddiol o'r DU 'heb fod yn newyddion' a gafodd eu dangos am y tro cyntaf yn 2017. Mae hyn wedi cael ei ddarparu ar draws 16 teitl rhaglen wahanol, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu dangos yn ystod oriau brig ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru. Roedd elfennau rheolaidd yn cynnwys y rhaglen materion cyfoes wythnosol *Wales this Week*, y rhaglen gefn gwlad *Coast & Country*, a'r rhaglen wleidyddol *Sharp End*.

Mae gan ITV Cymru Wales ymrwymadau rhaglenni ynghlwm wrth ei drwydded, sy'n ymwneud â nifer yr oriau o raglenni rhanbarthol a gaiff eu darlledu bob wythnos (5 awr 30 munud), cynyrchiadau gwreiddiol drwy gydol y dydd (65%) ac yn ystod oriau brig (85%), a'r cwota ar gyfer faint o

²³ I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-43782811>

gynyrchiadau annibynnol (25%) mae'n eu darlledu. Mae'r perfformiad mewn perthynas â'r cwotâu hyn yn cael ei gyhoeddi mewn atodiad i'r adroddiad hwn.

Ffigur 13: Oriau ITV o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.

Teledu lleol yng Nghymru

Roedd tair gorsaf deledu leol yn darlledu yng Nghymru yn 2018. Gwasanaeth Caerdydd oedd y cyntaf i gael ei lansio yn 2014 wedi'i ddilyn gan y gwasanaeth ar gyfer Abertawe yn 2016 a'r gwasanaeth ar gyfer yr Wyddgrug yn 2017.

Mae ymrwymïadau rhaglenni ynghlwm wrth drwydded pob sianel, ac fel rheol mae'r rhain yn ymwneud â faint o raglenni lleol mae'n rhaid eu dangos, gan gynnwys newyddion lleol a materion cyfoes. Mae'r ymrwymïadau hyn ar gael ar [wefan Ofcom](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0028/112987/swansea-change-request.pdf). Amrywiodd Ofcom ymrwymïadau rhaglenni gwasanaeth Abertawe yn gynharach yn 2018²⁴.

²⁴ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0028/112987/swansea-change-request.pdf


Ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, roedd 2.4% o'r rhaglenni rhwydwaith cymwys a gafodd eu darlledu yn 2017 yn gynrychiadau o Gymru.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynhyrchu rhaglenni ar draws y DU, ar sail [canllawiau cynhyrchu rhanbarthol](#) Ofcom.²⁵ O'r holl oriau cymwys yn 2017, roedd 2.4% wedi cael eu cynhyrchu yng Nghymru, a oedd yn cyfrif am 3.4% o'r holl wariant cymwys, a oedd wedi codi o 3.2% yn 2016.

Roedd y rhan fwyaf o'r oriau hyn yn gynrychiadau gan y BBC, gyda chynrychiadau o Gymru yn cynrychioli 4.4% o oriau cymwys y BBC a 6.7% o'i wariant cymwys yn 2017. Roedd hyn yn cynnwys ystod eang o raglenni, gan gynnwys cynrychiadau lle ceir llawer o raglenni fel *Bargain Hunt* a *Casualty* yn ogystal â chynrychiadau drama sydd fel rheol â chyllidebau cynhyrchu uwch fel *Sherlock* a *Doctor Who*.

Roedd dros 2% o oriau (2.7%) a gwariant (2.2%) cymwys Channel 4 wedi cael eu neilltuo i gynrychiadau yng Nghymru yn 2017; *One Born Every Minute* oedd y cynhyrchiad uchaf ei broffil. Roedd y mwyafrif helaeth o gynrychiadau rhwydwaith cymwys ITV (99.7%) a Channel 5 (98.8%) yn parhau i gael eu cynhyrchu yn Lloegr yn 2017.

Ffigur 14: Nifer yr oriau rhwydwaith gwreiddiol y tu allan i Lundain, a gwariant: 2010-2017



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Nid yw'r ffigurau'n cynnwys cynrychiadau newyddion rhwydwaith. Mae'r categori 'arall' yn cyfeirio at raglenni wedi'u gwneud gan gynhyrchwyr o fewn dalgylch yr M25, sy'n cyfrif fel cynrychiadau rhanbarthol ar y sail bod 70% o gyfanswm y gwariant a 50% o'r gwariant ar dalent oddi ar y sgrin y tu allan i'r M25, ond ddim i gyd mewn un isranbarth, ac felly nid oes modd eu priodoli i un rhanbarth. Gweler www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/87040/Regional-production-and-regional-programme-definitions.pdf ar wefan Ofcom am ragor o fanylion.

²⁵ Prif ddiben gofynion cynhyrchu rhanbarthol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a fesurir yn erbyn eu cwtâu tu allan i Lundain, ydy cefnogi a chryfhau'r sector cynhyrchu teledu a'r economïau creadigol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU. Ar hyn o bryd mae Ofcom yn adolygu'r arweiniad a chyhoeddodd gais am dystiolaeth ym mis Mawrth 2018: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/regional-production-programming-guidance-review>.


Caerdydd yn cyrraedd y rhestr fel ar gyfer pencadlys cenedlaethol Channel 4 a'i Ganolfannau Creadigol

Mae Caerdydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn ail gam y broses gystadleuol ar gyfer y pencadlys cenedlaethol newydd, a dwy Ganolfan Greadigol, y bydd Channel 4 yn eu hagor yn 2019. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ym mis Hydref 2018, gyda Chaerdydd yn wynebu cystadleuaeth gan chwe dinas ar gyfer y pencadlys cenedlaethol a gan 12 dinas ar gyfer y Ddwy Ganolfan Greadigol.²⁶

Gwariodd S4C £62.9m ar raglenni a gomisiynir ac a ddarlledir am y tro cyntaf yn 2017-18

Roedd S4C wedi gwario £62.9m ar raglenni a gomisiynwyd ac a ddarlledwyd yn ystod 2017/18 ar draws wyth genre o raglenni. Roedd rhaglenni drama a rhaglenni ffeithiol cyffredinol gyda'i gilydd yn cynrychioli bron i hanner y gwariant yma (£31.2) gyda'r gweddill yn cael ei ddosbarthu ar draws y genres, fel sy'n cael ei ddangos isod. Ar ben hynny, roedd y BBC wedi darparu 508 o oriau o raglenni statudol i S4C, a oedd wedi disgyn o 538 y flwyddyn flaenorol.

Ffigur 15: Gwariant S4C ar gomisiynau a ddangoswyd am y tro cyntaf: 2017-18 (£m)



Ffynhonnell: S4C. Nodyn: mae rhaglenni materion cyfoes yn cynnwys y tywydd.

²⁶ <http://www.channel4.com/info/press/news/channel-4-reveals-shortlist-for-new-national-hq-and-creative-hubs>

Cyhoeddwyd adolygiad annibynnol Llywodraeth y DU o S4C ym mis Mawrth 2018

Roedd Llywodraeth y DU wedi penodi Euryng Williams i arwain adolygiad annibynnol o S4C.

Roedd yr adolygiad yn edrych ar dri mater:

- 1) Cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C a'i allu i ddarparu cynnwys o ansawdd uchel;
- 2) Dulliau cyllido S4C; a
- 3) Strwythur llywodraethu S4C.

Argymhelliad
Pennod 1: Darparu Cynnwys o Ansawdd Uchel ac sy'n Gwasanaethu Cynulleidfaoedd sy'n Siarad Cymraeg
Argymhelliad 1: Dylai'r llywodraeth ddiweddararu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein a chael gwared â'r cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol. Bydd hyn yn caniatáu i S4C ehangu ei gyrhaeddiad a chynnig ei gynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau newydd yn y DU a thu hwnt.
Argymhelliad 2: Dylai S4C sefydlu canolfan ddigidol fewnol i ddatblygu a gwella ôl troed digidol S4C a bod yn sylfaen ar gyfer clwstwr digidol Cymraeg.
Argymhelliad 3: Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
Pennod 2: Gwarantu S4C ar gyfer y dyfodol
Argymhelliad 4: Dylai cyllid cyhoeddus S4C gael ei ddarparu'n gyfan gwbl drwy ffi'r drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau cyllido yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o setliad cyllid ffi'r drwydded y BBC. • Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn darparu tua 8% o gyllideb £84m y sianel - £6.7m - gyda 90% yn dod o ffi'r drwydded a 2% yn dod o incwm masnachol S4C ei hun. Mae cyfraniad y DU wedi cael ei warantu tan 2020.
Argymhelliad 5: Dylai'r llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo cyfredol i roi mwy o ryddid i S4C fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol.
Pennod 3: Sicrhau S4C sy'n annibynnol ac yn effeithiol
Argymhelliad 6: Dylid disodli Awdurdod S4C â bwrdd unedol newydd a fydd yn cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol.
Argymhelliad 7: Dylai'r llywodraeth ystyried a ydy trefniadau archwilio ariannol cyfredol S4C yn addas, gan gynnwys a fyddai'n briodol penodi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol S4C.

Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ar 29 Mawrth²⁷ ac roedd yn cyflwyno saith argymhelliad.

Derbyniodd Llywodraeth y DU holl argymhellion yr adolygiad ac mae nawr yn disgwyl i S4C fynd â'r rhain rhagddynt. Mae S4C i fod i ddarparu cynllun gweithredu manwl erbyn mis Gorffennaf 2018 ar sut y bydd yn cyflawni'r diwygiadau angenrheidiol hyn.


Strategaeth ddigidol S4C

Mae S4C wedi cyhoeddi y bydd yn gwario £3m dros y tair blynedd nesaf i ddatblygu strategaeth ddigidol y sianel.²⁸ Yn unol ag argymhellion adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon, mae S4C eisoes wedi cymeradwyo newidiadau yn y ffordd y mae'r sianel yn cysylltu â gwylwyr. Mae hyn yn golygu gwella ac ehangu'r llwyfan gwyllo ar-lein, S4C Clic, ac amrywio'r cynnwys sydd ar gael: ffurf hir, ffurf fer a ffurf ganolig. Bydd S4C yn gweithio i ddod i adnabod ei wylwyr yn well a bydd yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr greu hafanau personol ar S4C Clic.

²⁷ Mae ar gael yn

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/695963/Building_an_S4C_for_the_Future_Welsh_Accessible.pdf

²⁸ <https://rts.org.uk/article/future-s4c-wales>



Bodlonrwydd â theledu a chanfyddiadau o deledu

Trosolwg o'r bennod

Mae'r bennod hon yn edrych ar fodlonrwydd cyffredinol cynulleidfaoedd teledu â sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a'u safbwyntiau ynghylch pwysigrwydd a chyflawniad amrywiaeth o ddibenion a nodweddion²⁹, gyda data'n dod o arolwg traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus 2017 Ofcom.³⁰ Mae wedyn yn ystyried bodlonrwydd cynulleidfaoedd â safonau darlledu, gan ddefnyddio data o arolwg traciwr cyfryngau ar draws llwyfannau 2017 Ofcom.

Roedd saith o bob deg gwyliwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fodlon ar gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2017

Roedd saith deg dau y cant o wylwyr rheolaidd neu achlysurol unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru (BBC One, BBC Two, ITV Wales, Channel 4 a Channel 5) yn dweud eu bod naill ai'n fodlon iawn, neu'n eithaf bodlon â darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn cymharu â 75% ar gyfer cyfartaledd y DU, 75% yn Lloegr, 71% yn yr Alban a 69% yng Ngogledd Iwerddon.³¹

Wrth ystyried darpariaeth newyddion gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, roedd cynulleidfaoedd yng Nghymru yn rhoi sgôr uchel i "*Mae'r rhaglenni newyddion yn ddibynadwy*" sef

²⁹Caiff amcanion a dibenion statudol darlledu gwasanaeth cyhoeddus eu nodi yn Adran 264 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn Adolygiad cyntaf Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, fe wnaethon ni ddatblygu'r rhain ar ôl ymgynghori ac ymchwilio'n helaeth, gan greu fframwaith o ddibenion a nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

³⁰I gael manylion ynghylch y fethodoleg a'r holiadur, edrychwch ar adroddiad technegol y traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar wefan Ofcom yn <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/data/statistics/stats18>

³¹Traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus Ofcom 2017 I gael manylion ynghylch y fethodoleg a'r holiadur, edrychwch ar adroddiad technegol y traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar wefan Ofcom yn <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/data/statistics/stats18>


65%. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd y DU o 69%, Lloegr (68%) a Gogledd Iwerddon (74%). Mae'n is o lawer³² na'r Alban (79%).

Roedd gwylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi sgôr is i'r ystod o allbwn newyddion na gweddill y DU

Mae Ffigur 16 yn dangos y sgoriau ar gyfer darparu "rhaglenni newyddion rhanbarthol sy'n darparu amrywiaeth eang o newyddion o ansawdd da am fy ardal" ar gyfer BBC One, ITV a phob sianel wedi'u cyfuno, yn ôl gwlad. Roedd saith deg y cant o wylwyr rheolaidd yng Nghymru wedi rhoi sgôr uchel i BBC One am ei ystod eang o newyddion o ansawdd. Roedd hyn yn is na chyfartaledd y DU (75%) a'r gwledydd eraill: Gogledd Iwerddon (79%), yr Alban (78%) a Lloegr (75%), er nad ydy'r gwahaniaethau'n fawr.

Cafodd ITV yng Nghymru yr un sgôr â BBC One (70%). Mae'r sgôr yma'n is o lawer na'r sgôr yn yr Alban (85%). Wrth gymharu, mae sgôr cyfartalog y DU yn 75%, Gogledd Iwerddon yn 80% a Lloegr yn 74%.

Ffigur 16: Cyflenwi rhaglenni newyddion rhanbarthol sy'n darparu amrywiaeth eang o ansawdd da, yn ôl gwlad: 2017



Ffynhonnell: Traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus Ofcom 2017. C15 Pa sgôr fydddech chi'n ei roi i bob sianel yn unigol yn achos y datganiad hwn, ar raddfa o 1 i 10, gydag 10 yn cyfateb i'r sgôr uchaf ac 1 i'r isaf? C16 Pa sgôr fydddech chi'n ei roi i BBC One ac ITV gyda'i gilydd yn achos y datganiad hwn? Sail ar gyfer sianeli unigol:

³² Drwy gydol y bennod *Bodlonrwydd â theledu a chanfyddiadau o deledu* mae 'sylweddol' ond wedi cael ei ddefnyddio i dynnu sylw at unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn sgoriau sy'n dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ar y lefel hyder 95% ar gyfer canlyniadau wrth gymharu â'r flwyddyn gyfredol, ac ar y lefel hyder 99% ar gyfer canlyniadau wrth gymharu rhwng blyneddau. I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar adroddiad technegol y traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar wefan Ofcom yn

<https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/data/statistics/stats18>

Gwylwyr rheolaidd (yn hunangofnodi) pob un o'r sianeli hyn ymhob gwlad (BBC One = 2207, 1384, 351, 292, 180; ITV1 = 1884, 1183, 286, 246, 169). Sail ar gyfer 'Pob sianel gyda'i gilydd' Pob ymatebydd sy'n gwyllo unrhyw sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar unrhyw adeg ymhob gwlad (3098, 1957, 502, 400, 239).


Roedd gwylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi sgôr is i gynrychiolaeth ac amrywiaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus na gwylwyr yng ngwledydd eraill y DU

Roedd bron i hanner cynulleidfaoedd rheolaidd/achlysurol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru (47%) yn rhoi sgôr uchel i gyflawni "Mae'n portreadu fy ngwlad/rhanbarth yn deg i weddill y DU". Er bod y sgôr yma'n debyg i Ogledd Iwerddon (48%), mae'n is o lawer na'r Alban (62%) a Lloegr (56%).

Cafodd "Mae'n dangos rhannau gwahanol o'r DU gan gynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon" sgôr uchel gan 56% o gynulleidfaoedd rheolaidd/achlysurol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn debyg i 63% yng Ngogledd Iwerddon ac yn is o lawer na'r Alban (70%) a Lloegr (66%).

Roedd chwe deg dau y cant o gynulleidfaoedd rheolaidd/achlysurol darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi rhoi sgôr uchel ar gyfer "Mae ei raglenni'n dangos gwahanol fathau o ddiwylliannau yn y DU". Mae hyn yn debyg i Ogledd Iwerddon (65%) a Lloegr (66%) ond yn is o lawer na'r Alban (71%).

Ffigur 17: Adlewyrchu hunaniaeth/cynrychioli amrywiaeth yn y gwledydd, yn ôl gwlad: 2017




Ffynhonnell: Traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus Ofcom 2017. C15 Pa sgôr fydddech chi'n ei roi i bob sianel yn unigol yn achos y datganiad hwn, ar raddfa o 1 i 10, gydag 10 yn cyfateb i'r sgôr uchaf ac 1 i'r isaf? Sail: Pob ymatebydd sy'n gwyllo unrhyw sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rheolaidd neu'n achlysurol ymhob gwlad: 2017 (1957, 502, 400, 239).

Agweddau at deledu yng Nghymru

Un o ddyletswyddau Ofcom o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ydy sicrhau bod pobl sy'n gwyllo'r teledu ac yn gwrando ar y radio yn cael eu diogelu'n briodol oddi wrth ddeunyddiau sy'n peri niwed neu dramgwydd. Mae traciwr cyfryngau ar draws llwyfannau Ofcom yn edrych ar agweddau at iaith sy'n peri tramgwydd, rhyw a thrais yn flynyddol.

Mae cynulleidfaoedd teledu yng Nghymru yn llawer mwy tebygol na chynulleidfaoedd yn y DU o ddweud bod gormod o ryw ar y teledu (32% o'i gymharu â 25%). Maent hefyd yn teimlo bod gormod o drais (38% o'i gymharu â 34% ar gyfer y DU), gormod o regi (39% o'i gymharu â 33%) a bod y teledu wedi gwaethgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (26% o'i gymharu â 22%). Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaethau hyn yn sylweddol.



Ffynhonnell: Traciwr cyfryngau ar draws llwyfannau Ofcom 2017. Sail: Gydag unrhyw set deledu yn 2017; DU (2,313); Cymru (237)



Gwrandawyr radio

Trosolwg o'r bennod


Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r prif ddatblygiadau yn y farchnad radio a sain yng Nghymru, gan gynnwys pwy sy'n gwrandao, sut maen nhw'n gwrandao a beth maen nhw'n gwrandao arno. Mae hefyd yn edrych ar argaeledd gwasanaethau DAB (darlledu sain digidol) yng Nghymru.

Roedd 77 gwasanaeth yn darlledu ar amblecs DAB ledled Cymru ym mis Mawrth 2018³³

Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau DAB sydd ar gael yng Nghymru (34) yn orsafoedd masnachol sy'n darlledu ar draws y DU. Fodd bynnag, roedd bron cynifer o wasanaethau masnachol lleol hefyd yn darlledu (29) mewn amrywiol rannau o Gymru. Roedd 36 o orsafoedd analog yn darlledu ar draws Cymru yn 2018, gan gynnwys naw gorsaf gymunedol. Mae'r gorsafoedd radio masnachol sydd ar gael yn cynnwys gorsafoedd Heart a Capital (sy'n berchen i Global neu Communicorp), gan wasanaethu cymunedau yng ngogledd a de Cymru, portffolio Nation Broadcasting o orsafoedd (gan gynnwys Radio Ceredigion a Nation Radio) a The Wave a Swansea Sound y Wireless Group.

Ffigur 18: Argaeledd gorsafoedd radio yng Nghymru

³³ Efallai fod rhywfaint o ddyblygu o ran y gwasanaethau sy'n cael eu cyfri yma, lle caiff gwasanaethau eu darlledu ar fwy nag un amblecs lleol yng Nghymru.



Ffynhonnell: BBC / Ofcom, Mawrth 2018.

Nodyn: Mae'r siart hwn yn dangos uchafswm y gorsafoedd sydd ar gael; mae amrywiadau lleol a materion yn ymwneud â derbyniad yn golygu na fydd gwrandawyr o reidrwydd yn gallu cael gafael ar bob un ohonynt. Mae ffigur 'digidol y BBC i gyd' yn cynnwys Radio Cymru 2. Mae'r ffigur digidol masnachol lleol yn cyfeirio at nifer y gwasanaethau sy'n cael eu cyflawni gan amblecsau DAB lleol yng Nghymru. Ni fydd yr holl wasanaethau yn cynnwys cynnwys lleol, ac efallai y bydd rhai gwasanaethau'n cael eu darlledu ar nifer o wahanol amblecsau (ond yn dal i gael eu hystyried yn wasanaethau unigol at y dibenion hyn).

Radio Cymunedol yng Nghymru

Mae Ofcom wedi dyfarnu dwy drwydded radio cymunedol ers Hydref 2017, Radio Aber (Aberystwyth) a Rhondda Radio. Mae yna gyfanswm o 11 o orsafoedd radio cymunedol trwyddedig yng Nghymru (yn cynnwys dwy orsaf sy'n paratoi i fynd ar yr awyr ar hyn o bryd).


Mae'r gorsafoedd hyn yn darlledu i ardaloedd bach sydd fel rheol o fewn 5 cilometr i'w trosglwyddydd. Maen nhw'n canolbwyntio ar gymuned benodol (fel grŵp o leiafrif ethnig) neu ar amrywiaeth o wrandawyr yn yr ardal ddarlledu. Rôl radio cymunedol ydy bod o fudd i gymunedau yn hytrach na gwneud elw.

Mae gwasanaethau DAB gan y BBC ar gael i 92% o gartrefi yng Nghymru

Nid oedd llawer o newid yn lefelau'r ddarpariaeth DAB ar draws cartrefi Cymru yn 2017; roedd gan amblecsau'r BBC (92%), Digital One (68%) a Sound Digital (52%) i gyd yr un lefel o ddarpariaeth ag yn 2017. Roedd darpariaeth DAB leol yng Nghymru yn cyrraedd 83% o gartrefi ym mis Mawrth 2018.³⁴

³⁴ Mae'r ffigur yma'n is na'r amcangyfrifon o ddarpariaeth a gyhoeddwyd yn 2017, gan nad oedd lledaenu'r rhwydwaith yn cynnwys rhai safleoedd a oedd wedi'u rhestru yn y cynllun ymestyn DAB lleol gwreiddiol.

Ffigur 19: DAB mewn cartrefi (%)



Ffynhonnell: BBC, Arqiva, Ofcom, Mawrth 2018.

Radio Cymru 2

Cafodd ail orsaf Gymraeg BBC Radio Cymru, Radio Cymru 2, ei lansio ddiwedd mis Ionawr, ar ôl iddi gael ei threialu yn 2016 er mwyn dathlu pen-blwydd Radio Cymru yn 40. Cafodd Radio Cymru 2 gyllid gan y BBC i ddatblygu ac i gynnal yr orsaf yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Mae ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7am a 10am ar DAB, BBC Radio iPlayer a theledu digidol (yn amodol ar drefniadau contract gyda'r gweithredwyr DAB perthnasol).

Roedd perchnogaeth o radio digidol wedi disgyn mymryn yng Nghymru yn 2018


Roedd y nifer sy'n berchen ar setiau radio DAB yng Nghymru wedi disgyn mymryn i 56% yn 2018, er bod y gyfradd hon yn dal i dyfu ar draws gweddill y DU. Roedd y niferoedd a oedd yn eu defnyddio yn uwch ar draws y DU drwyddi draw (64%) ac yn yr Alban (66%) ar ddechrau 2018 ond roedd yn dal yn is yng Ngogledd Lloegr, ar 50%.

Ymysg gwrandawyr radio yng Nghymru, roedd gan 36% set radio DAB yn y cartref yn 2018³⁵, mae hyn yn weddol debyg i'r Alban (40%) ac yn uwch na Gogledd Lloegr (28%).³⁶

³⁵ Mae'r rhain yn setiau radio digidol 'gweithredol' yn y cartref, hy radio sy'n cael ei ddefnyddio gan rywun yn y cartref y rhan fwyaf o wythnosau.

³⁶ Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2018

Ffigur 20: Perchnogaeth DAB




*Ffynhonnell: RAJAR, pob oedolyn (15+), Ch1 ar gyfer pob blwyddyn
TSA radio gwledydd/lleol y BBC ym mhob gwlad*

Roedd gwrando digidol wedi parhau i dyfu yn 2018

Mae faint sy'n gwrando ar y radio drwy lwyfan digidol wedi cynyddu; o 28% ar ddechrau 2013 i 47% bum mlynedd yn ddiweddarach. Mae hyn yn is nag yn y DU drwyddi draw (51%), yr un fath ag yn yr Alban (47%) ac yn llawer mwy nag yng Ngogledd Iwerddon, lle dim ond oddeutu un rhan o dair o'r holl wrando oedd yn ddigidol yn Ch1 2018 (35%).

Er mai gwrando ar-lein sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yng Nghymru yn ystod y blyneddau diwethaf, mae gwrando drwy radio DAB bellach yn cyfrif am draean o'r holl wrando (33%).

Ffigur 21: Cyfran yr oriau gwrando drwy lwyfannau digidol ac analog yng Nghymru: 2013-2018



Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn, Ch1 bob blwyddyn, TSA BBC Radio Wales


Dywed bron i wyth o bob deg o'r bobl sy'n gwrando ar y radio yng Nghymru ac nad oes ganddynt set radio DAB eu bod yn annhebygol o brynu un yn ystod y flwyddyn nesaf

Dim ond 6% o wrandawyr radio heb set radio DAB yng Nghymru sy'n dweud eu bod yn debyg o gael un yn ystod y 12 mis nesaf; mae'r rhan fwyaf yn annhebyg o wneud hynny (79%).

Ymysg y rheini nad ydynt yn debygol o gael radio DAB yn ystod y 12 mis nesaf, roedd dros hanner (51%) yn dweud eu bod yn hapus yn defnyddio'r gwasanaeth presennol, ac roedd 46% yn dweud nad oedden nhw angen set radio DAB.³⁷

³⁷Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2018

Ffigur 22: Y tebygolrwydd y prynir set radio DAB o fewn y flwyddyn nesaf



*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2018. Sail: Oedolion 16+ sy'n gwrandio ar y radio, sydd â setiau radio gartref sy'n gweithio a heb fod â set DAB** (n = 675 DU, 98* Cymru, 361 Lloegr, 110 Yr Alban, 106 Gogledd Iwerddon, 48* Cymru drefol, 50* Cymru wledig). *Rhybudd: Sail isel, dylid trin y ffigurau fel rhai dangosol yn unig. Profion arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2018 a rhwng Cymru drefol a gwledig yn 2018. QP12: Pa mor debygol yw hi y gwnaiff eich cartref brynu radio DAB yn y 12 mis nesaf?*


Gwrando ar radio byw ydy'r gweithgaredd gwrandio mwyaf poblogaidd yng Nghymru

Ar gyfartaledd, mae oedolion yng Nghymru yn treulio 14 awr a 45 munud bob wythnos yn gwrandio ar unrhyw fath o sain; mae 81% o hyn yn radio byw. Mae hyn yn uwch na chyfran yr amser sy'n cael ei dreulio yn gwrandio ar radio byw ar draws y DU (75%). Mae oedolion yng Nghymru yn llai tebygol nag oedolion ar draws Prydain Fawr (8%) neu'r Alban (7% o'i gymharu â 11%)³⁸ o dreulio amser yn gwrandio ar gerddoriaeth wedi'i ffrydio (ee Spotify ac Apple music). Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith bod oedolion yng Nghymru yn llai tebygol o danystrifio i wasanaeth ffrydio cerddoriaeth (25%) nag oedolion ym Mhrydain Fawr (30%) neu'r Alban (33%).³⁹

³⁸ Mae'r sampl TouchPoints yn cynnwys Prydain Fawr ac felly nid yw'n cynnwys Gogledd Iwerddon

³⁹ TouchPoints 2017

Ffigur 23: Cyfran yr amser a dreulir yn gwrandao ar wahanol fathau o sain




Ffynhonnell: TouchPoints 2017

Sail: Oedolion 15+ ym Mhrydain Fawr; Rhanbarthau Swyddfeydd y Llywodraeth: Cymru; Yr Alban

Cerddoriaeth ydy'r math o gynnwys sain sy'n cael ei werthfawrogi fwyaf gan wrandawyr ar draws Prydain Fawr drwyddi draw, ac yn yng Nghymru, wedi'i ddilyn gan newyddion cenedlaethol. Ar gyfer gwrandawyr yng Nghymru, darpariaeth newyddion lleol yw'r trydydd math o gynnwys pwysicaf, cyn newyddion sy'n torri.

Ffigur 24: Y deg math o gynnwys a werthfawrogir fwyaf ar y radio



Ffynhonnell: TouchPoints 2017

Sail: Oedolion 15+ ym Mhrydain Fawr; rhanbarthau Swyddfeydd y Llywodraeth: Cymru; Yr Alban

Roedd naw deg y cant o oedolion wedi gwrandao ar y radio bob wythnos yng Nghymru yn Ch1 2018

Roedd naw oedolyn o bob deg wedi gwrandao ar y radio bob wythnos yng Nghymru yn Ch1 2018, ac am gyfartaledd o 22 awr yr wythnos, maen nhw'n gwrandao am gyfnodau hirach nag oedolion yn unrhyw un o wledydd eraill y DU. Mae saith deg un y cant yn gwrandao ar wasanaethau radio'r BBC bob wythnos, sydd wedi disgyn o 76% bum mlynedd yn ôl. Mae gwrandao ar radio masnachol wedi aros yn sefydlog dros y cyfnod; 60% o oedolion yn gwrandao bob wythnos (61% yn 2013).

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal [ymchwiliad i radio yng Nghymru](#). Cylch gorchwyl yr ymgynghoriad oedd asesu:

- y graddau y mae gwasanaethau radio BBC Cymru Wales, gwasanaethau radio masnachol a gwasanaethau radio cymunedol yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru;
- effaith bosibl dadreoleiddio radio masnachol ar gynulleidfaoedd yng Nghymru;
- strwythurau perchnogaeth radio masnachol a'u heffaith ar gynnwys lleol;
- effaith technoleg newydd ar gynnwys lleol;
- cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau radio cymunedol yng Nghymru; ac
- addasrwydd seilwaith darlledu radio yng Nghymru.

Cyflwynodd cyn Gyfarwyddwr Cymru Ofcom, Rhodri Williams, a'r Pennaeth Trwyddedu a Chynllunio Radio, Neil Stock, dystiolaeth gerbron y pwyllgor ar ddadreoleiddio radio masnachol ym mis Chwefror 2018.⁴⁰ Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad cyn bo hir.

Ffigur 25: Oriau gwrandao a chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog

	Lloegr	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon	CYFANSWM Y DU
Oriau gwrandao wythnosol ar gyfartaledd	20:48	21:06	22:00	19:18	20:48
Cyrhaeddiad	89.9%	88.3%	90.1%	93.4%	90.2%


*Ffynhonnell: RAJAR. Pob oedolyn (15+), Ch1 2018.
TSA radio gwledydd/lleol y BBC ym mhob gwlad*

⁴⁰ Mae trawsgrifiad o'r sesiwn ar gael yn <http://record.assembly.wales/Committee/4561>

Mae gorsafoedd radio rhwydwaith y BBC yn arbennig o boblogaidd yng Nghymru

Fel cyfran o'r holl wrando ar y radio, mae mwy o amser yn cael ei dreulio yng Nghymru yn gwrando ar wasanaethau'r BBC ar gyfer y DU i gyd nag yn unrhyw wlad arall yn y DU. Mae bron i chwarter o'r gyfran o oriau gwrando yng Nghymru yn perthyn i BBC Radio 2 (23.3%). Mewn cyferbyniad, mae gan wasanaethau masnachol lleol gyfran is o oriau gwrando yng Nghymru nag mewn gwledydd eraill. Mae gan orsafoedd masnachol gyrhaeddiad is yng Nghymru (43%) nag yng ngwledydd eraill y DU (51% yn yr Alban, 60% yng Ngogledd Iwerddon).

Ffigur 26: Cyfran o'r oriau gwrando, yn ôl gwlad



*Ffynhonnell: RAJAR. Pob oedolyn (15+), Ch1 2018.
TSA radio gwledydd/lleol y BBC ym mhob gwlad*

Gorsafoedd radio cenedlaethol BBC Cymru Wales

Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd BBC Cymru Wales gynlluniau i ymestyn darpariaeth BBC Radio Wales, gan ymestyn argaeledd yr orsaf ar y band FM i amcangyfrif o 330,000 o bobl a chynyddu ei ddarpariaeth FM genedlaethol ar draws Cymru o 79% i 91%.


Bydd y cynnydd yn darpariaeth BBC Radio Wales ar FM o fudd i wrandawyr yng ngogledd ddwyrain Cymru a chanolbarth Cymru. Gan ddefnyddio swm bach o rwydwaith presennol y band amledd FM presennol, sydd wedi'i neilltuo ar gyfer BBC Radio 3, bydd y datblygiad yn dod â darpariaeth FM Radio Wales yn nes at y gorsafoedd radio cenedlaethol a rhwydwaith eraill. Bydd Radio 3 yn dal ar gael i 92% o gartrefi yng Nghymru ar FM, ac ni fydd y newidiadau'n effeithio ar argaeledd yr orsaf ar DAB, teledu ac ar-lein.

Roedd cyrhaeddiad radio masnachol cenedlaethol wedi tyfu yng Nghymru yn 2018


Y sector sydd wedi cynyddu ei gynulleidfa fwyaf ydy gorsafoedd masnachol ar gyfer y DU i gyd; mae ffigurau gwrandawyr wedi codi o 33% o oedolion yng Nghymru yn 2013 i 38% yn 2018. Mae'n debyg bod hyn oherwydd bod argaeledd y gorsafoedd hyn wedi tyfu ers mis

Mawrth 2016 pan gafodd ail amlblecs DAB masnachol ar

gyfer y DU i gyd, Sound Digital, ei lansio. Radio'r BBC sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf mewn niferoedd cynulleidfa: o 76% o oedolion yng Nghymru yn 2013 i 71% yn 2018.



Ffigur 28: Cyrhaeddiad wythnosol yn ôl sector radio dros amser: 2013-2018



BBC Radio 2 oedd yr orsaf radio mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn Ch1 2018

BBC Radio 2 oedd yr orsaf radio y gwrandawyd arni fwyaf ar draws Cymru yn Ch1 2018⁴¹ gyda chyrhaeddiad wythnosol o 38%, wedi'i dilyn gan BBC Radio 1 ar 24% a BBC Radio 4 gyda 17%.

Yng Nghaerdydd⁴², Heart South Wales Global oedd y drydedd orsaf radio fwyaf poblogaidd, gyda chyrhaeddiad o 21%; y tu ôl i BBC Radio 2 a BBC Radio 1. Ar draws Gogledd Cymru⁴³, roedd y tair gorsaf fwyaf poblogaidd yr un fath â'r rheini ledled Cymru drwyddi draw, gyda chyrhaeddiad BBC Radio 2 hyd yn oed yn fwy (41%).

Tabl 29: Y tair gorsaf y gwrandewir fwyaf arnynt ar draws y DU, Cymru a rhanbarthau Cymru

	Y DU		Cymru*		Caerdydd**		Gogledd Cymru***	
Safle	Gorsaf	Cyrhaeddiad wythnosol (%)	Gorsaf	Cyrhaeddiad wythnosol (%)	Gorsaf	Cyrhaeddiad wythnosol (%)	Gorsaf	Cyrhaeddiad wythnosol (%)
1	BBC Radio 2	28.3%	BBC Radio 2	37.9%	BBC Radio 2	37.9%	BBC Radio 2	40.6%
2	BBC Radio 4	20.0%	BBC Radio 1	23.6%	BBC Radio 1	21.8%	BBC Radio 1	24.1%
3	BBC Radio 1	17.4%	BBC Radio 4	17.1%	Heart De Cymru	21.2%	BBC Radio 4	20.9%

Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2018

* TSA BBC Radio Wales

**TSA Capital De Cymru

***TSA Heart Gogledd Cymru

Fel rheol, ar draws y DU, y cyfnod gwrandawro brig ydy rhwng 8am a 9am. Ond yng Nghymru y brig yn Ch1 2018 oedd rhwng 10am a 10:30am, pan roedd tua 15-16% o'r boblogaeth yn gwrandawro ar *The Ken Bruce Show* – a oedd yn cynnwys cyflwynydd BBC Radio Wales Lynn Bowles tan fis Mawrth 2018 – ar BBC Radio 2. Ar draws hyd y rhaglen⁴⁴ cyrhaeddodd 20% o'r boblogaeth yn ardal Caerdydd, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar draws y DU (16%).


⁴¹ TSA BBC Radio Wales RAJAR

⁴² TSA Capital De Cymru RAJAR sy'n cynrychioli tua 40% o boblogaeth oedolion Cymru.

⁴³ TSA Heart Gogledd Cymru RAJAR, sy'n cynrychioli tua 727,000 o oedolion.

⁴⁴ 09:30-12pm Llun-Gwener

Ffigur 30: Cyrhaeddiad cyfartalog ar draws y diwrnod yn ardal Caerdydd: Dydd Llun - dydd Gwener




Ffynhonnell: RAJAR Ch 1 2018, pob oedolyn 15+ TSA Capital De Cymru

Roedd radio masnachol lleol yng Nghymru wedi cynhyrchu £6.33 y pen yn 2017

Roedd gorsafodd masnachol lleol yng Nghymru fel *Radio Ceredigion* a *Capital South Wales* wedi cynhyrchu £6.33 y pen o'r boblogaeth yn 2017.⁴⁵ Dyma oedd y ffigur isaf ar draws gwledydd y DU ac roedd yn ostyngiad o 1% mewn termau real ers 2016.

Ffigur 31: Refeniw radio masnachol lleol, y pen: 2017 (£)



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr, amcangyfrifon Ofcom Nodyn: Mae'r ffigurau hyn yn berthnasol i'r trosiant perthnasol o drwyddedau AL (masnachol ac analog lleol) ac yn cynnwys refeniw lleol a chenedlaethol a nawdd.

⁴⁵ Mae'r ffigurau hyn yn berthnasol i'r refeniw a gynhyrchir yn erbyn trwyddedau analog yn unig. Ni chaiff refeniw a gynhyrchir drwy lwyfannau digidol ei gynnwys.